# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016

Amser: 09.15 - 15.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/3319) yn:

[http://senedd.tv/cy/3319](http://senedd.tv/cy/3319)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Eluned Parrott AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Julie James AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg<br>Edwina Hart AC, Y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Neil Surman, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc)<br>Andrew Minnis (Ymchwilydd)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd)<br>Anne Thomas (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 345KB) Gweld fel HTML (383KB)

## 1 Ystyriaeth o'r Adroddiad Drafft ar Botensial yr Economi Forol yng Nghymru

1.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar Botensial yr Economi Forol yng Nghymru.

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur

2.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies AC a Gwenda Thomas AC.

## 4 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

### 4.1 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

4.1.1 Atebodd Julie James AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Huw Morris, Neil Surman ac Andrew Clark gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

4.1.2 Cynigiodd Julie James AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ddarparu'r hyn a ganlyn:

- dadansoddiad o wir nifer y myfyrwyr o Loegr a myfyrwyr rhyngwladol a ymunodd â'r system addysg uwch yng Nghymru wedi'i fesur yn erbyn y nifer ddisgwyliedig ar gyfer y pedair blynedd academaidd ddiwethaf.
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniadau a bennwyd ar gyfer y rhaglen cyflogadwyedd newydd ar gyfer pob oedran, Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru, pan fydd y broses gymeradwyo wedi'i chwblhau.
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am y gwersi a ddysgwyd a fydd yn sicrhau y bydd y rhaglen hyfforddiaethau ddiweddaraf yn effeithiol ac yn sicrhau gwerth da am arian ac yn sicrhau cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar hyfforddeiaethau a gostyngiad yn y nifer sy'n rhoi'r gorau iddynt, pan fydd hi wedi gorffen ei hadolygiad o hyfforddeiaethau.

### 4.2 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

4.2.1 Atebodd Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a Simon Jones gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

4.2.2 Cynigiodd Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- cymhariaeth o un flwyddyn i'r llall o Gyllideb Atodol 2015-16 a'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17
- eglurhad ysgrifenedig o'r dyraniad cyllid i gam gweithredu'r cynllun Ffyrdd a Rheilffyrdd
- eglurhad ysgrifenedig o'r gostyngiad yn y dyraniad refeniw Economi a Gwyddoniaeth rhwng Cyllideb Atodol 2015-16 a'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17, gan ystyried yn benodol y gwasanaethau neu raglenni y bydd y gostyngiadau hyn yn effeithio arnynt fwyaf yn 2016-17
- enghreifftiau o gwmnïau mewn rhai sectorau sydd wedi cyflawni canlyniadau / effaith dda o ran twf a swyddi; dadansoddiad o sut yr aed ati i fesur maint eu llwyddiant; a gwybodaeth am feysydd penodol yn y gyllideb lle mae'r Gweinidog wedi cynyddu dyraniadau ar gyfer 2016-17 yn seiliedig ar berfformiad da yn y

gorffennol. Cytunodd y Gweinidog hefyd y byddai'r nodyn yn amlinellu'r gweithgareddau aflwyddiannus neu rai nad oeddent yn darparu gwerth am arian, na fyddant yn cael eu hariannu yn 2016-17 o ganlyniad i hyn

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl am ei phenderfyniad ynghylch y cynlluniau ardrethi busnes a gyflwynir yn 2016-2017
- nodyn am gyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer prosiectau a rhaglenni trafnidiaeth sy'n para llawer o flynyddoedd
- ystyried a allai'r dyraniad cyllid ar gyfer y seilwaith teithio llesol fod yn fwy tryloyw a darparu dadansoddiad o ddyraniadau cyllid blynyddoedd blaenorol.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Cyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020

5.1.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

### 5.2 Bil Cymru Drafft

5.2.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

### 5.3 Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid - proses y Gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth

5.3.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

### 5.4 Ardrethi Busnes

5.4.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

### 5.5 Horizon 2020 ac Erasmus+

5.5.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 5.6 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru

5.6.1 Nododd y Pwyllgor y papur.